
# ENWOGION O FRI?

*'Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,*
*Gwlad beirdd a chantorion enwogion o fri ...'*



CAN

HEN WLAD FY NHADAU.

1 Mae hen wlad fy nhadau yn anwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,
Tros ryddid collasant eu gwa'd.

Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad
Tra môr yn fur, i'r bur hoff bau,
O bydded i'r hen iaith barhau.

Ond ai 'beirdd a chantorion' ydy unig 'enwogion' Cymru ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain? Oni ddylen ni ychwanegu swyddi fel actorion, dylunwyr, cerflunwyr, modelau ....

Ychydig dros flwyddyn yn ôl roedd Dylan Garner yn gweithio i gwmni plastro ei dad ac yn chwarae rygbi i Glwb Rygbi Tregaron ar y penwythnosau. Ond erbyn heddiw mae llun y bachgen ifanc 29 oed i'w weld ar bosteri ledled y byd wedi iddo gael ei gyflogi gan asiantaeth modelu. Mae wedi cael tynnu ei lun yn hanner noeth gyda Noémie Lenoir, wedi cerdded mewn sioeau modelu ym Mharis a Milan ac wedi ei arwyddo i bum asiant modelu ledled y byd. Bywyd tra gwahanol i blastro a byw ar fferm a chwarae rygbi!

'Yn ystod haf 2010 ro'n i ar fy ngwyliau yn Efrog Newydd ac yn eistedd mewn bar pan ddaeth y fenyw 'ma ata i a gofyn a oeddwn i'n fodel,' meddai Dylan sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

'Ar y dechre ron i'n meddwl ei bod hi'n chato fi lan ond yna fe ddealles i ei bod hi'n sgowt i asiantaeth modelu ac roedd hi'n meddwl y gallen i fod yn fodel go iawn!'

Ond dychwelyd i Gymru wnaeth Dylan i gnoi cil dros y mater.

'Roedd angen tipyn o gyts i fynd i Efrog Newydd ond dyna benderfynes i yn y diwedd. Ro'n i'n gwybod mod i'n cymryd risg ond gallen i bob amser ddod adre a throi nôl at blastro. Dwi ddim yn difaru o gwbwl.'

Mae'n amlwg fod Dylan wedi gwneud y penderfyniad cywir oherwydd mae'n gweithio i asiantaeth modelu Elite yn Llundain – sydd hefyd yn cyflogi Cindy Crawford – a Red yn Efrog Newydd.



Hawlfraint: Media Wales/Walesonline.co.uk

Ychwanegodd Dylan, ' Rydw i wedi bod yn Denver, Colorado, Efrog Newydd, Yr Almaen, Milan, Paris a Dubai. Mae'n wahanol iawn i beth ro'n i'n arfer ei wneud! Ches i ddim amser i wylio Pencampwriaeth y Chwe Gwlad hyd yn oed! Jocan oedd dad pan ddwedodd 'Cywilydd arnat ti a thithe wedi arfer chwarae cymaint o rygbi!' Ond go iawn mae fy nheulu i i gyd wedi bod yn gefnogol iawn i fi ac yn eitha balch ohono i yn ddistaw bach!'

Dywedodd Dylan, sy'n 6 troedfedd 2 fodfedd, nad pryd a gwedd yw popeth. Mae personoliaeth hefyd yn bwysig. Dywedodd hefyd ei fod wedi bod yn dysgu am y gwaith fesul tipyn, ond teimlai'n swil iawn y tro cyntaf iddo gael ei ffilmio yn hanner noeth.

'Ro'n i gyda Noémie Lenoir, oedd yn arfer modelu i M&S, a'r cwbl oedd gen i amdana i oedd thong lliw croen!' meddai.

Gall pethau fod yn dawel am gyfnod. 'Mae hynny'n gwneud i fi boeni,' meddai, 'ond wedyn fe fydda i'n cael gwaith ac mae'n gwneud i fyny am yr amser tawel. Mae'n anodd cynllunio dim ymlaen llaw, fel trefnu gwyliau, oherwydd rhaid derbyn unrhyw gynnig o waith sy'n dod.'

Ond mae un peth yn siwr – mae'n mynd â Chymru gydag ef i bobman, a wnaiff e byth anghofio mai Cymro yw e!

Felly, gadewch i ni foderneiddio ein hanthem genedlaethol i gynnwys swyddi eraill!